Eisteddfodau Teulu James Pantyfedwen Pontrhydfendigaid 2023



Pafiliwn Pontrhydfendigaid

Nos Wener Ebrill 28
Dydd Sadwrn Ebrill 29
Dydd Sul Ebrill 30

Rhestr Testunau llawn ar gael o fis Tachwedd ymlaen oddi wrth yr Ysgrifenydd Cyffredinol:

Neli Jones
Bro Mebyd,
Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig
Ceredigion SY25 6EL
01974 831695
glanrhyd@btopenworld.com

TESTUNAU LLENYDDIAETH 2023

1. **Y GADAIR –** Cerdd neu ddilyniant o gerddi mewn cynghanedd heb fod yn hwy na 80 llinell: ***Pla*** neu ***Y Pla.***
Noddir y wobr ariannol gan Dr Ted Jones, er cof am ei frawd, John Jones, cyn ysgrifennydd Llen a Llefaru.
Gwobr: Cadair Fechan Arian a £200.

2. **Y GORON –** Cerdd neu ddilyniant o gerddi yn y mesur rhydd heb fod yn hwy na 80 llinell*:* ***Pererin.***
Noddir y wobr ariannol gan Neli, Catrin a Sioned er cof am Selwyn, cyn Ysgrifennydd Cyffredinol.
Gwobr: Coron Fechan Arian a £200.

3. **EMYN –** ***Mawl I'r Gwasanaeth Iechyd***.
Gwobrau: 1. £50; 2. £40; 3. £30.

4. **STORI FER –** ***Yma O Hyd.***
Gwobrau: 1. £50; 2. £40; 3. £30.

5. **CYWYDD (12 llinell) –** ***Unben*****.**
Gwobrau: 1. £50; 2. £40; 3. £30.

6. **SONED neu DELYNEG –** ***Mynediad.***
Gwobrau: 1. £50; 2. £40; 3. £30.

7. **TLWS YR IFANC (cyfyngedig i oedran blynyddoedd 7-13)** – Detholiad o dri darn cyferbyniol.
Gwobrau: 1. Cadair Her Barhaol Selwyn a Neli Jones, Cadair fechan (i'w chadw gan yr enillydd) a £60; 2. £50; 3. £40.

8. **TALWRN Y BEIRDD**: Pedwar ymhob tîm. Y timau i anfon am y tasgau cyn y gystadleuaeth (Y gystadleuaeth i'w chynnal ar y nos Sul).
Gwobrau: 1. £150 a Tharian Her Barhaol Raymond Osborne Jones (Noddir y wobr ariannol gan Mari Arch er cof am ei brawd Raymond); 2. £100; gyda £50 i bob tîm anfuddugol.

Yr holl gyfansoddiadau yn dwyn ffugenw yn unig, ac enwau'r ymgeiswyr mewn amlen dan sêl, i fod yn llaw Ysgrifennydd Adran Llen, Dr Ted Jones, Y Fron, Ffair Rhos, Ystrad Meurig, Ceredigion SY25 6BP, fan bellaf erbyn **EBRILL 8fed 2023**. Rhaid i bob ymgeisydd am y Gadair a'r Goron anfon **DAU** gopi o'i waith i'r gystadleuaeth.